# JONES, WILLIAM (1851 - 1931), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

**Enw:** William Jones
**Dyddiad geni:** 1851
**Dyddiad marw:** 1931
**Rhiant:** Elizabeth Jones
**Rhiant:** William Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Tom Beynon

Ganwyd 27 Gorffennaf 1851, ail fab William ac Elizabeth Jones, Pantydeuddwr, Pentwyn, Sir Gaerfyrddin. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol y Bwrdd, Llannon, ysgol Parcyfelfet, Caerfyrddin, a Choleg Trefeca. Dechreuodd bregethu yn 1874, cafodd ei ordeinio yn 1879, a bu'n bugeilio Moriah (Treboeth), 1879-80, Bethania (Treforris), 1880-1904, gan ymneilltuo i Cross Hands am flwyddyn, Seion (Forest), Aberdulais, 1905-27, ac ymddeol a symud i fyw i Nesta, Bonymaen, Llansamlet. Bu farw'n sydyn yn Llanelli, bore Sul, 26 Gorffennaf 1931, a chladdwyd ef ym Mhentwyn. Bu'n llywydd cymdeithasfa'r Deau, 1915, a llywydd y gymanfa gyffredinol, 1923.

## Awdur

**Y Parchedig Tom Beynon**, (1886 - 1961)

## Ffynonellau


*Y Drysorfa*, Ionawr 1915

J. H. Howard, *Perarogl Crist cofiant a phregethau y Parch. William Jones Treforis* (Bala 1932)

T. Beynon, *Gwrid ar Orwel ym Morgannwg* (Caernarfon 1938), 73-7


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734666


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu